



Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Cyngor Celfyddydau Cymru

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau: 03 Ionwar
am 16:00



**The Commissioner for
Public Appointments**

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cynnwys

Cyflwyno Cais

Atodiad A: Penodi Aelodau i Gyngor Celfyddydau Cymru

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru

Atodiad C: Y broses ddethol

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cyflwyno cais

Diolch am eich diddordeb mewn cael eich penodi'n Gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru. Fel Cadeirydd, byddwch yn dylanwadu ar gyfeiriad a datblygiad strategol y profiadau celfyddydol a ddarperir i bobl Cymru. Byddwch yn cyfrannu at ddatblygu a darparu polisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Mae'r atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl **yr aelodau** a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: [Penodiadau Cyhoeddus - \(tal.net\)](#)

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru ac yna ar 'Gwneud cais' yng nghornel chwith isa'r dudalen. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru. Gallwch wedyn gadw golwg ar hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill a wnewch, drwy'ch cyfrif.

Unwaith y byddwch wedi cofrestru, gallwch weld y ffurflen gais. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros ymgeisio' y ffurflen gais ar lein. Dylai'r datganiad personol a'r CV fod hyd at ddwy dudalen A4 o hyd yr un (cyfanswm o bedair tudalen).

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i

- 1) ddisgrifio'ch diddordeb yn y rôl,
- 2) dangos sut rydych yn bodloni'r meini prawf a nodir ym manyleb y person, a
- 3) disgrifio sut y gallech gyfrannu at waith Cyngor Celfyddydau Cymru.

Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech geisio rhoi enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn cyfateb i bob un o'r meini prawf, ac sy'n disgrifio beth oedd eich rôl chi wrth gyflawni amcan penodol. Bydd o fudd i'r panel dethol hefyd os gallwch fod yn glir ynghylch pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arferol neilltuo paragraff i bob maen prawf.

Dylech gyfyngu eich datganiad personol i ddwy dudalen. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os bydd eich datganiad yn hirach na hyn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Geirdaon

Cyngor Celfyddydau Cymru

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â nhw i ofyn am eirda yn ddiweddarach yn y broses (ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus yn unig).

Amserlen fras

Dyddiad cau: 03 Ionawr 2023 am 16:00
Llunio rhestr fer: 17 & 18 Ionawr 2023
Cyfweiliadau: 14, 15 & 17 Chwefror 2023
Gwrandawriad posibl cyn penodi: I'w drefnu

Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan gyrrff cyhoeddus aelodau ar eu bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am swyddi ar gyrrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwmo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n gofyn am gyfweiliad o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad cyn belled â bod ei gais yn bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd dan sylw. Mae bodloni'r 'meini prawf gofynnol' yn golygu bod rhaid ichi roi tystiolaeth yn eich cais sy'n dangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu pobl anabl yn eu swydd a'u gyrfa. Os hoffech gyfweiliad gwarantedig, cysylltwch â publicappointments@gov.wales.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â publicappointments@gov.wales cyn gynted ag y medrwyd a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: publicappointments@gov.wales

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â rôl Cyngor Celfyddydau Cymru a rôl y Cadeirydd cysylltwch â

Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, Llywodraeth Cymru
E-bost: Jason.thomas@gov.wales

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Penodi Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru

Rôl y Cadeirydd

Mae'r Cadeirydd yn atebol i Weinidog(ion) Llywodraeth Cymru a gellir ei ddwyn i gyfrif hefyd gan Senedd Cymru / Welsh Parliament. O dan amgylchiadau arferol, rhaid i'r Cyngor a'r Gweinidog gyfathrebu â'i gilydd drwy'r Cadeirydd. Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod aelodau eraill y Cyngor yn cael gwybod am unrhyw gyfathrebu o'r fath.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisiau a gweithredoedd y Cyngor yn cefnogi polisiau strategol ehangach y Gweinidog, a bod y Corff yn gwneud ei waith ag uniondeb. Lle bo hynny'n briodol, rhaid i'r Cadeirydd drefnu bod y polisiau a'r gweithredoedd hyn yn cael eu cyfathrebu a'u rhannu â phob rhan o'r Corff.

Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldebau penodol fel arweinydd am:

- lunio strategaethau'r Cyngor;
- sicrhau bod y Cyngor, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried mewn ffordd briodol ofynion statudol a rheolaeth ariannol a'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru;
- datblygu perthynas gref ac effeithiol â'r Cyngor a'r sector ehangach.
- goruchwylio cynnydd cyffredinol tîm uwch arweinwyr Cyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys y Prif Weithredwr.
- hyrwyddo defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- sicrhau safonau uchel o reoleidd-dra, uniondeb a llywodraethiant; a
- cynrychioli barn y Cyngor gerbron y cyhoedd.

Rhaid i'r Cadeirydd hefyd:

- sicrhau bod holl aelodau'r Cyngor yn cael eu briffio'n llawn ar delerau eu hapwyntiad ac ar eu dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau;
- arwain y cyngor i ehangu mynediad a chreu sector a sefydliad Celfyddydau cynhwysol, yn unol â Chynllun Gweithredu Cyngor Celfyddydau Cymru ar Ehangu Ymgysylltiad a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, y Fframwaith Gweithredu ar Anabledd a'r Cynllun Gweithredu LHDTQ.
- goruchwylio pob rhan o'r broses Adolygu Buddsoddiant a'r newid i'r model diwygiedig.
- sicrhau bod holl aelodau'r Cyngor yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar ofynion elusennau a chyrrff sector cyhoeddus o ran rheolaeth ariannol a pharatoi adroddiadau ac ar y gwahaniaethau a allai fodoli rhwng ymarfer yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus;
- sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar y cydbwysedd sgiliau sy'n briodol i gyfarwyddo busnes y Corff;
- pan fydd penodiadau i swyddi ar y Cyngor yn cael eu gwneud gan y Gweinidog, cynghori'r Gweinidog ar anghenion y Corff;
- asesu perfformiad aelodau unigol y Cyngor yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r tîm partneriaeth, ac asesu perfformiad y Prif Weithredwr.

Cyngor Celfyddydau Cymru

- sicrhau bod cod ymddygiad priodol ar gyfer aelodau'r Cyngor, gan gynnwys rheolau a chanllawiau ynghylch buddiannau a gwrthdaro buddiannau aelodau'r Cyngor.

Meini Prawf Hanfodol

Yn eich cais, bydd disgwyl i chi ddangos eich bod yn gallu bodloni'r meini prawf hanfodol canlynol, a fydd yn cael eu profi ymhellach mewn cyfweiliad:

- Profiad o weithredu fel uwch arweinydd mewn sefydliad cymhleth, aml-ddisgyblaethol, a'r gallu i weithredu mewn amgylchedd o newid;
- Ymrwymiad cryf i ddatblygu rôl y celfyddydau ledled Cymru a meddu ar wybodaeth eang am y sectorau celfyddydol, diwylliant, treftadaeth a/neu'r diwydiannau creadigol. Gwerthfawrogiad o'r cyd-destunau diwylliannol, economaidd a chymdeithasol-wleidyddol y mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu ynddynt; ac o'i rwymedigaethau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Prawf o gynyddu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant a chydraddoldeb. Ymrwymiad y gellir ei ddangos i ehangu mynediad a chyfranogiad yn y celfyddydau ledled Cymru;
- Gallu dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth drylwyr o lywodraethu da, atebolrwydd a chyfrifoldeb ariannol, gan gynnwys cyllid y sector cyhoeddus yn ddelfrydol;
- Profiad o wneud penderfyniadau cadarn ac o roi arweiniad wrth ddatblygu atebion a strategaethau strategol, creadigol a diduedd i gyflawni nodau tymor hir;
- Dangos y gallu i feithrin perthynas effeithiol ar draws sectorau a gweithredu fel llysgennad i'r celfyddydau. Yn ennyn hyder rhanddeiliaid ar bob lefel, gan gynnwys Gweinidogion;
- Ymrwymiad i [Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan](#)..

Meini Prawf Dymunol:

- Profiad o'r diwydiannau celfyddydol, diwylliannol, treftadaeth neu greadigol mewn cyd-destun Cymreig.
- Y Gymraeg (fel y nodir isod) neu ymrwymiad i ddatblygu'r sgiliau hyn o fewn dwy flynedd
- Profiad neu ddealltwriaeth o weithgareddau masnachol a chreu incwm, gan gynnwys codi arian, a'r gallu i gymhwyso hyn i sefydliadau celfyddydol, a/neu

Cyngor Celfyddydau Cymru

- Profiad neu ddealltwriaeth o gymhwyso technoleg ddigidol er mwyn hyrwyddo'r celfyddydau a'u gwneud yn gynaliadwy.

Rydym yn croesawu ceisiadau yn arbennig gan fenywod, pobl anabl a phobl ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Y Gymraeg

Byddai'r gallu i gyfathrebu trwy'r Gymraeg yn ddymunol, fel a ganlyn.

Deall: Gallu deall rhannau o sgwrs elfennol

Darllen: Gallu darllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol a'u deall

Siarad: Gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg.

Ysgrifennu: Gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau pob dydd

Hefyd, dylai'r holl ymgeiswyr ddangos eu bod yn deall pwysigrwydd y Gymraeg mewn Cymru ddwyieithog a gwerthfawrogi polisiau a strategaethau Llywodraeth Cymru o blaid yr iaith.

Arall:

Lleoliad: Cynhelir cyfarfodydd ar-lein, yn Swyddfeydd CCC ym Mae Caerdydd ac mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru. Mae ymateb y Cyngor i Covid-19 yn golygu bod cyfarfodydd ar-lein yn fwy tebygol yn y tymor byr i'r tymor canolig.

Ymrwymiad Amser: Tua 18.5 awr yr wythnos

Hyd y penodiad: Tair blynedd.

Tâl: **£43,810.** Bydd gan y Cadeirydd hawl hefyd i gostau teithio a threuliau rhesymol eraill o fewn terfynau y cytunwyd arnynt.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd fod aelodaeth o Gyngor Celfyddydau Cymru yn golygu na chânt fod yn aelod o Senedd Cymru o [dan Orchymyn Anghymwysio Senedd Cymru 2020.](#)

Cyngor Celfyddydau Cymru

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel **Aelod o** Gyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddewis i gyfweiliad. Bydd hynny'n cynnwys ymhlith pethau eraill, chwiliadau yn y cyfryngau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweiliad am ffrwyth yr archwiliadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

[Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus Mehefin 2019
\(publishing.service.gov.uk\)](http://publishing.service.gov.uk)

Rôl a chyfrifoldebau Cyngor Celfyddydau Cymru

Cefndir

Sefydlwyd Cyngor Celfyddydau Cymru drwy Siarter Frenhinol ym 1994. Ariennir Cyngor y Celfyddydau yn bennaf drwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn elusen gofrestrdig o dan y Gyfraith Elusennol ac mae'n un o bedwar Dosbarthwr y Loteri yng Nghymru.

Dyma amcanion y Cyngor fel y'u nodir yn ei Siarter Frenhinol:

- a) i ddatblygu a gwella gwybodaeth am y celfyddydau, eu deall a'u hymarfer;
- b) i gynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;
- c) i gynghori a chydweithredu â Llywodraeth Cymru a'r cyrff perthnasol; a
- d) i gyflawni'r amcanion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Fel rhan o delerau ac amodau'r cyllid, mae gan Aelodau'r Cyngor gyfrifoldeb fel unigolion ac yn gorfforaethol i Lywodraeth Cymru.

Ynglŷn â Chyngor Celfyddydau Cymru

Fel asiantaeth ariannu a datblygu celfyddydau'r wlad, mae Cyngor y Celfyddydau:

- **yn cefnogi a datblygu gweithgarwch** celfyddydol o ansawdd uchel – mae'n buddsoddi arian cyhoeddus, wedi'i ddarparu gan y trethdalwr a'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru, i helpu'r celfyddydau i ffynnu yng Nghymru
- **yn datblygu ac yn cyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y celfyddydau** – mae'n sicrhau bod mecanweithiau, prosesau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i gynnal yr agenda strategol a lunnir gan Lywodraeth Cymru, fel y'i nodir yn y ddogfen strategaeth ddiweddaraf (y Rhaglen Lywodraethu ar hyn o bryd) a'r llythyr Cylch Gwaith Blynnyddol
- **yn dosbarthu arian y Loteri** – trwy geisiadau i'w rhaglenni cyllido mae'n buddsoddi mewn prosiectau sy'n datblygu gweithgarwch celfyddydol newydd, gan gefnogi unigolion a sefydliadau
- **yn rhoi cyngor ar y celfyddydau** – drwy ei staff a'i ymgynghorwyr, Cyngor y Celfyddydau sydd â'r gronfa fwyaf o arbenigedd a gwybodaeth yn y celfyddydau yng Nghymru
- **rhannu gwybodaeth** – Cyngor y Celfyddydau yw canolfan genedlaethol rhwydwaith o wybodaeth am y celfyddydau yng Nghymru. Mae ganddo hefyd gysylltiadau rhyngwladol cryf yn y DU a thu hwnt
- **yn codi proffil y celfyddydau yng Nghymru** – Cyngor y Celfyddydau yw'r llais cenedlaethol dros y celfyddydau yng Nghymru, gan wneud yn siŵr

Cyngor Celfyddydau Cymru

bod pobl yn ymwybodol o ansawdd, gwerth a phwysigrwydd celfyddydau'r wlad

- **yn creu mwy o arian i economi'r celfyddydau** - drwy fentrau fel *Y Cynllun Casglu* - cynllun y Cyngor i annog mwy o bobl i brynu celf - a'i waith i sicrhau cyllid Ewropeaidd; mae'r rhain yn dod â mwy o arian i economi'r celfyddydau
- **yn dylanwadu ar gynllunwyr a phenderfynwyr** – mae'r celfyddydau'n digwydd mewn llawer o leoedd gwahanol. Maent yn gallu cael effaith ddramatig ar ansawdd bywydau pobl, a'r llefydd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae'r celfyddydau hefyd yn aml wrth galon mentrau ar gyfer adfywio economi a chymdeithas, ar gyfer trawsnewid dysgu mewn ysgolion ac ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles. Mae Cyngor y Celfyddydau'n chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod y cyfraniad y gall y celfyddydau ei wneud yn cael ei gydnabod, ei werthfawrogi a'i ddathlu.

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy yn ei farn sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, ac felly pwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu'n llwyr ar yr wybodaeth y byddwch wedi'i darparu yn eich CV a'ch datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Jason Thomas, Llywodraeth Cymru fydd yn cadeirio'r panel dewis. Nid yw cynrychiolydd Panel Cyngor y Celfyddydau ac Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel wedi'u dewis eto.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Rhagfyr 2022 pwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweiliad ym mis Ionawr 2023.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch chithau'n cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac os nad ydy dyddiad y cyfweiliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Ein bwriad yw cynnal y cyfweiliadau ar-lein. Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweild, cewch gyngor a'r trefniadau ar gyfer cynnal eich cyfweiliad ar-lein.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn ateb gofynion y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip ddewis cwrdd ag ymgeiswyr y gellir eu penodi cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Bydd bwlch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael gwybod hynt y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n **Aelod o** Gyngor Celfyddydau Cymru, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau amodau'r penodiad a gynigir ichi.

Mae Gweinidogion Cymru a Senedd Cymru wedi cytuno i drefnu bod pwyllgor perthnasol Senedd Cymru'n craffu ar benodiadau arwyddocaol yn Llywodraeth Cymru cyn eu penodi er mwyn craffu'n well ar y broses benodi cyhoeddus a'i gwneud yn fwy tryloyw. Gan fod hwn yn cael ei ystyried yn benodiad cyhoeddus arwyddocaol, bydd cam olaf y broses benodi yn wrandawriad cyn penodi, lle bydd dewis ymgeisydd y Gweinidog yn ymddangos o flaen y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Os na fyddwch yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod ichi. Rydym yn gwerthfawrogi bod ymgeisio am swyddi'n gofyn wrth lawer o amser ac ymdrech, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth am eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych chi unrhyw gwynion am y ffordd mae eich cais wedi'i drin, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus: publicappointments@gov.wales.